PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 13/14 Mawrth 28/Ebrill 4, 2024 50c.

# Caethwasiaeth fodern

O dan arweiniad y Parchg Jeff Williams, Llywydd yr Undeb, y mae Adran Cenhadaeth Undeb yr Annibynwyr wedi bod yn trafod caethwasiaeth fodern. Y mae hwn yn un o erchyllterau y byd cyfoes sy'n aml yn gudd ond eto sy'n effeithio ar filiynau o bobl ar hyd a lled y byd a hefyd yma yng Nghymru. Mae'n broblem gymhleth oherwydd ei bod yn amlygu ei hun mewn amrywiol ffyrdd ac felly yn anodd ei datrys. Un rhan o'r broblem yw ein diffyg dealltwriaeth ac rydym angen ein haddysgu lawer mwy am yr hyn ydyw. Rhannodd Jeff Williams wybodaeth a baratowyd gan Ali Ussery, Cytûn, gyda'r Adran Cenhadaeth a chredwn mai buddiol fyddai rhannu'r prif bwyntiau gyda darllenwyr *Y Tyst*.



### Cam-fanteisio ar bobl

Mae Caethwasiaeth Fodern yn drosedd ddifrifol ac yn groes i hawliau dynol. Mae'n cynnwys masnachu mewn pobl, pan fydd rhywun yn cael ei gipio a'i ddal yn erbyn ei ewyllys, ei recriwtio a'i orfodi i weithio neu i gyflawni trosedd, gwasanaethau yn y diwydiant rhyw, neu gaethwasiaeth yn y gweithle neu gaethwasanaeth domestig. Mae dros 50 miliwn o bobl ledled y byd yn gaeth i hyn (Sefydliad Llafur Rhyngwladol). Ond nid problem sy'n bodoli mewn mannau pellennig yn unig yw hon, oherwydd yn y Deyrnas Unedig yn 2021 cofnodwyd yn swyddogol fod 12,727 o ddioddefwyr (Swyddfa Gartref), tra bod llawer mwy wedi llithro drwy'r system. Nid yw ffigurau 2022 wedi'u cyhoeddi eto, ond disgwylir y bydd cynnydd yn y niferoedd. Mae'r data'n cynnwys cam-drin trigolion y Deyrnas Unedig a thramor. Mae'r mwyafrif o achosion yn ymwneud ag oedolion yn cael eu hecsbloetio, sy'n cynnwys gweithio mewn ffatrïoedd, lletygarwch, twristiaeth, y system ofal, a gwasanaethau fel glanhau a golchi ceir. Yn achos plant y mae'r gyfran uchaf ynghylch 'cam-fanteisio troseddol' sy'n ymwneud yn bennaf â chludo a gwerthu cyffuriau drwy'r hyn a adwaenir fel 'llinellau sirol' (county lines). Ceir ystadegau am hyn ar y gwefannau canlynol:

**https://www.gov.uk/government/collections/modern-slavery**
**https://www.llyw.cymru/datganiad-caethwasiaeth-fodern-llywodraeth-cymru**

### Gwrthweithio

Mae Caethwasiaeth Fodern yn realiti trasig a chynyddol yn ein cymunedau heddiw. Yng Nghymru, mae Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru yn strwythur a arweinir gan Lywodraeth Cymru sy'n dod ag asiantaethau statudol a thrydydd sector ynghyd. Mae'r fforwm hwn ar hyn o bryd yn datblygu strategaeth newydd a fydd yn cynnwys cydweithio rhwng pedwar gweithgor, sef Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth, Atal, Grŵp Dioddefwyr a Goroeswyr a Grŵp Cymru Foesegol a Rhyngwladol. Cynrychiolir eglwysi ar y Fforwm gan Ali Ussery, sy'n adrodd yn ôl trwy Cytûn.

### Llun a delw Duw

Mae hi'n eithriadol o bwysig fod cymunedau eglwysig a phobl o ffydd yn ymwneud â'r mater hwn fel un o'r troseddau mwyaf difrifol yn erbyn dynoliaeth yn ein cyfnod

*parhad ar dudalen 3*

# Yr Atgyfodiad Mawr


Ar ddydd Gwener y Groglith y mae'n sicr bod nifer ohonom wedi bod mewn gorymdaith gyda chyd-Gristnogion o amgylch eglwysi lleol neu i leoliad priodol. Ar y gorymdeithiau hynny rydym yn canolbwyntio ar farwolaeth aberthol yr Iesu trosom ar groes Calfaria. Yna, ar ddydd Sul y Pasg byddwn yn dathlu atgyfodiad bendigedig yr Arglwydd a'i fuddugoliaeth dros angau a'r tywyllwch. Er ein bod yn gwahaniaethu rhwng y ddau ddigwyddiad mewn gwirionedd un digwyddiad ydynt, y naill yn llifo i'r llall. Ni allwn iawn amgyffred y groes heb yr atgyfodiad ac ni ddeallwn yr atgyfodiad heb y groes. Y mae'r naill a'r llall yn annatod glwm. Mae'r atgyfodiad yn cyflawni proffwydoliaeth Iesu amdano ei hun gan ddangos fod y gwaith gyflawnodd i ddod â iachawdwriaeth yn ddilys. Dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion:

> Pan gyrhaeddwn ni Jerwsalem, bydda i, Mab y Dyn, yn cael fy mradychu i'r prif offeiriaid a'r arbenigwyr yn y Gyfraith. Byddan nhw'n rhoi dedfryd marwolaeth arna i, ac yna'n fy rhoi yn nwylo'r Rhufeiniaid. Bydd y rheiny yn gwneud sbort am fy mhen, fy chwipio a'm croeshoelio. Ond yna ddeuddydd wedyn bydda i'n dod yn ôl yn fyw!
>
> Mathew 20:18-20

### Annisgwyl

Er i'r Iesu ddweud wrth y disgyblion o flaen llaw am yr atgyfodiad yr oedd yr hyn a ddigwyddodd yn gwbl annisgwyl i bawb. Mae hynny yn gwbl ddealladwy

*parhad ar dudalen 2*



# Y Cwmni Bach, podlediad yr Undeb Menna Elfyn yn y stiwdio

Gwestai rhifyn Mawrth o'r *Cwmni Bach* yw Menna Elfyn, un o bennaf beirdd Cymru, rhywun sydd wedi bod yn rhan o'n tirwedd lenyddol ni â'i cherddi ardderchog ers sawl degawd ac sy'n parhau i ddweud pethau pwysig drwy ei gwaith.




### Magwraeth

O fagwraeth gynhaliol, gynnes a chariadus fel yr ieuengaf o blant y Mans ym Mhontardawe, mae Menna yn ferch i'r diweddar Barchg T. Elfyn Jones, oedd yn un o emynwyr blaenllaw Cymru'r ugeinfed ganrif, mae'n amlwg fod blas y cyw yn y cawl o ran y gallu i drin geiriau. Mae Menna yn rhannu rhai profiadau o'i magwraeth, ac yn sôn am eu gwaith a'i bywyd mewn modd difyr yn y rhifyn diweddaraf o'r *Cwmni Bach*.

### Toreth o gyfranwyr

Y mae podlediadau misol *Y Cwmni Bach* gan yr Undeb wedi bod ar gael ers rhyw flwyddyn a hanner bellach, mae'n rhan o genhadaeth ddigidol MSP4 yr Undeb a noddir gan CWM. Mae'r penodau blaenorol yn cynnwys sgyrsiau difyr gyda phobl fel Sheridan Angharad James sydd wedi cychwyn ar swydd newydd fel Canon Bugeiliol y Plwyf a Phererinion yng nghadeirlan Tyddewi – os byth y byddwch yn trefnu pererindod i Ddyddewi, bydd cwrdd ag Angharad yn gwneud lles i'ch enaid chi – Siôn Brynach sy'n gweithio fel prif weithredwr Cytûn, Dafydd Iwan eicon Cymreig, Nel Richards o Glydach sy'n fyfyrwraig â'i bryd ar fod yn newyddiadurwraig amgylcheddol, a Laura Wyn sy'n Grynwraig ac yn athrawes ioga.

### Gwylio a gwrando

Mae'r podlediadau ar gael i'w gwylio ar wefan yr Undeb, neu i wrando arnynt – maent ar gael ar blatfformau Spotify, Apple ac YouTube hefyd. Sgyrsiau hamddenol a hwyliog w pob un ohonynt gyda gwesteion amrywiol o bob cwr o Gymru, sy'n trafod eu bywydau, eu profiadau, eu ffydd, a phob mathau o bethau eraill hefyd. Does dim un o'r penodau yr un peth a phob un yn werth eu clywed neu eu gwylio, oherwydd y mae gan bawb ei stori.

Ond, nid dim ond adnodd i wrando arno yn eich cartref eich hun yw'r *Cwmni Bach*, gallwch eu gwylio neu wrando arnynt yng nghwmni eraill mewn cymdeithas, neu hyd yn oed eu defnyddio yn hytrach nag oedfa ar y Sul. Mae'r podlediadau hyn yn ffordd i ni rannu straeon gyda'n gilydd, i drafod y pethau sy'n bwysig i ni heddiw. Ac wrth gwrs, mi fedrwch chithau barhau â'r sgwrs ymhlith eich gilydd, mae'n bwysig ein bod ni'n siarad, yn tystiolaethu, ac yn rhannu'n profiadau ni.

Daw mwy o westeion i'r *Cwmni Bach* dros y flwyddyn hon, ymunwch gyda ni yn y sgwrs.

# Yr Atgyfodiad Mawr – parhad

oherwydd yn ôl eu profiad a'u dealltwriaeth hwy nid oedd neb yn dod yn ôl yn fyw ar ôl marw. Ynfydrwydd fyddai meddwl yn wahanol i hynny. Ond dyma'n union ddigwyddodd yn hanes Iesu ac mae'r digwyddiad hwn wedi newid hanes dynoliaeth. Mae'r atgyfodiad yn profi mai Iesu yw Mab Duw a'r Meseia yr oedd y proffwydi wedi ysgrifennu amdano. Profa bod yr Iesu yn berffaith, oherwydd canlyniad pechod yw marwolaeth. Ni phechodd Iesu ac felly nid oedd gan farwolaeth hawl arno. Profa hefyd bod yr iawn a dalodd Iesu am ein pechodau ar y groes yn ddigonol i ddod a maddeuant inni.

Dywedodd Iesu wrth Martha:


> Fi ydy'r atgyfodiad a'r bywyd. Bydd pawb sy'n credu ynof fi yn dod yn fyw, er iddyn nhw farw; a bydd y rhai sy'n fyw ac yn credu ynof fi ddim yn marw go iawn. Wyt ti'n credu hyn?
>
> Ioan 11:25–26

Dyma'r addewid trwy Martha i bawb ohonom a thrwy gyfrwng yr atgyfodiad mae'r addewid yn troi'n ffaith.

Haleliwia, Iesu yw'r Atgyfodiad, concwerwr angau, ac y mae bywyd tragwyddol i bob un sy'n credu ynddo. Dathlwn yn orfoleddus dros y Pasg gan ddiolch i Dduw am ei gariad rhyfeddol tuag atom a'r gobaith sicr sydd gennym o ganlyniad i hynny.

> Myfi yw'r Atgyfodiad mawr,
> Myfi yw gwawg y byd:
> Caiff pawb a'm cred, medd f'Arglwydd Dduw
> Er trengi, fyw mewn eilfyd.

**Ellis Wynne**



## Caethwasiaeth fodern – *parhad*

modern. Nid yw'n ddigon cydnabod fod y gamdriniaeth hon yn digwydd heb wneud dim yn dderbyniol. Cyfeirio yr ydym yma at bobl sydd wedi eu creu ar lun a delw Duw ac y mae gan bawb yr hawl i fyw bywyd rhydd. Yr her fawr yw gwybod sut i symud ymlaen. Mae cymaint o'r drafodaeth swyddogol yn ymwneud â sylwi ar arwyddion o gamfanteisio, sut i adrodd am bryderon, cefnogi dioddefwyr a goroeswyr, ac yna dod â'r drwgweithredwyr o flaen eu gwell. Os ydym o ddifrif, rhaid gweithio'n galetach i atal y cam-drin yn ymarferol gan weddïo ac eiriol tros y sefyllfa enbyd.

Mae yna lawer o elusennau sydd wedi bod yn gweithio i fynd i'r afael â chamfanteisio dros y degawd diwethaf. Mae Hafan o Oleuni yn fudiad yng ngogledd Cymru sy'n gweithio'n agos gyda'r Eglwys yng Nghymru a Rhwydwaith Rhyddid Ewropeaidd Cynghrair Efengylaidd Ewrop. Am ragor o wybodaeth ewch i: www.havenoflight.co.uk neu cysylltwch trwy: info@havenoflight.uk.

## PROSIECT DENMAN 2024

Eleni gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu podlediad / hysbyseb / fideo / unrhyw beth cyfrwng digidol byr (hyd at 5 munud o hyd) neu waith celf ar y thema:

### Ein hysgol Sul: 'Dysgu am Iesu.'

Roedd Iesu'n dysgu'r bobl am Dduw drwy gyfrwng damhegion. Sut ydych chi'n dysgu am Iesu Grist a'i neges?

Anfoner eich cynnyrch digidol at rhodri@annibynwyr.cymru a'r cynnyrch celf at Elinor yn Nhŷ John Penri, 5 Axis Court, Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ erbyn dydd Iau, 13 Mehefin 2024.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynyddol yn Nantgarw ym mis Gorffennaf.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

# Gweddi 3

*Yn y gyfres hon rydym yn ystyried pwysigrwydd gweddi, er mwyn annog ein gilydd i weddïo ac i sylweddoli nad rhywbeth sy'n digwydd yn unig mewn oedfa yw gweddi. Mae'n rhan hanfodol o fywyd pob dydd y Cristion.*

Stori hyfryd sy'n darlunio gweddi i mi yw hanes y ddau o Emaus yn cerdded gyda Iesu yn ôl adref wedi'r atgyfodiad. Maent ar daith ac mae'r Iesu gyda hwy. Maent yn siarad a thrafod ac mae Iesu'n esbonio'r ysgrythurau iddynt. Maent yn cael eu calonogi ac yn sylweddoli fod yr Iesu byw gyda hwy. Taith yw ein bywyd ninnau ac y mae Ef gyda ni, ar hyd y daith, nid yn gorfforol, ond trwy'r Ysbryd Glân. Ac wrth gydgerdded mae'n bwysig siarad yn gyson gydag Ef.

Wrth rodio gyda'r Iesu
    ar y daith,
mae'r ofnau yn diflannu
    ar y daith;
mae gras ei dyner eiriau,
a golau'r ysgrythurau,
a hedd ei ddioddefiadau
    ar y daith,
yn nefoedd i'n heneidiau
    ar y daith.

### Gweddi'r Arglwydd

Dewch i ni nawr droi yn fwy manwl at gynnwys gweddi, gan edrych ar weddi'r Arglwydd. Oherwydd mae'r Iesu yn dweud wrth ei ddisgyblion: 'Dyma sut dylech chi weddïo,' hynny yw y mae'n gosod patrwm syml i ni, sy'n cynnwys yr holl elfennau angenrheidiol mewn gweddi. Nodir y 5 peth yma fel prif elfennau gweddi: Addoliad, Cyffes, Deisyfu (gofyn am bethau), Eiriolaeth (gweddïo dros eraill) a Diolchgarwch. Nid yw'r 5 elfen yma ym mhob gweddi ond wrth i ni weddïo yn gyson byddwn yn cyffwrdd pob un ohonynt.

Mae gweddi'r Arglwydd wedi ei chofnodi mewn dau le sef, Luc 11 a Mathew 6 yn y Bregeth ar y Mynydd. Dyma fersiwn Efengyl Mathew, beibl.net:

Ein Tad sydd yn y nefoedd,
dyn ni eisiau i dy enw di gael ei
    anrhydeddu.
10Dŷn ni eisiau i ti ddod i deyrnasu,
ac i'r cwbl sy'n dda yn dy olwg di
ddigwydd yma ar y ddaear fel
    mae'n digwydd yn y nefoedd.
11Rho i ni ddigon o fwyd i'n cadw
    ni'n fyw am heddiw.
12Maddau i ni am bob dyled i ti
yn union fel dyn ni'n maddau
i'r rhai sydd mewn dyled i ni.
13Cadw ni rhag syrthio pan fyddwn
    ni'n cael ein profi,
ac achub ni o afael y drwg.
    Achos ti sy'n teyrnasu, ti sydd â'r
    grym a'r gogoniant am byth, Amen.

### Gweddi gyhoeddus

Yn Mathew 6:6 mae Iesu yn pwysleisio gweddi bersonol, ond yma y mae'n cymryd yn ganiataol bod Cristnogion yn gweddïo gyda'i gilydd, yn gweddïo yn gyhoeddus, meddai, 'Felly, gweddïwch chwi fel hyn: "Ein Tad yn y nefoedd, sancteiddier dy enw".' (Math. 6:9) Yn y lluosog y mae'n rhoi y cyfarwyddyd. Gweddïwch chi fel hyn, "Ein Tad." Mae gweddi gyhoeddus yn rhan hollbwysig o fywyd yr eglwys Gristnogol, pan ddeuwn at ein gilydd i gyfarch addoli a deisyf gan Dduw. Yn ddau ac yn dri weithiau, yn ddeg dro arall, neu yn gannoedd. Mae llu o esiamplau o hyn yn y Beibl. Un enghraifft yw'r Salmau a ddefnyddid mewn addoliad cyhoeddus yn y deml. Ac mae'r profiad o gyd-weddïo yn un gwerthfawr a thrwyddo rydym yn addoli ac yn cael ein newid i fod yn fwy a mwy tebyg i Iesu.

Un anhawster gyda gweddi'r Arglwydd yw y gall fynd yn llawer rhy gyfarwydd, fel ein bod yn ei hadrodd yn gwbl anystyriol o arwyddocâd y geiriau. Mae'n bwysig felly ein bod yn oedi yn achlysurol i ystyried yn fanylach beth yw ystyr y geiriau. Y tro nesaf fe ystyriwn y ddau air cyntaf sef 'Ein Tad'.



Yr Adran Gydenwadol

MAWRTH 28 2024 RHIF 161/162

# Oes Awen i'r Aileni?
# "Mae'r Pasg yn cychwyn ar fore'r Nadolig."

"Mae'r Pasg yn cychwyn ar fore'r Nadolig." Mi alla' i glywed fel taswn yno rŵan lais Mrs Wynne, fy athrawes gynradd, yn deud y geiriau yma wrth ddosbarth ohonom oedd yn cael wy siocled bach yn anrheg ganddi cyn gadael am adre ar drothwy gwyliau'r Pasg. Mae'n rhaid bod y geiriau wedi cydio ym mlas y siocled, rywsut!

Yna, a minnau'n hogyn hŷn, daeth eu hystyr hefyd yn amlwg imi. Myfyrio oeddwn i yn ystod gwasanaeth carolau'r pentref yn yr eglwys, lle'r oedd Mrs Wynne wrth yr organ. Wrth ganu carol Ficer Rhys Prichard: 'Awn i Fethlem, bawb dan ganu', dyma ddod at y pennill olaf:

> Awn i Fethlem i gael gweled
> Y rhyfeddod mwya' wnaethped,
> Gwneuthur Duw yn ddyn naturiol
> I gael marw dros ei bobol.

Daeth ei geiriau yn wên i'r cof o rywle: "Mae'r Pasg yn cychwyn ar fore'r Nadolig"!

Wna i byth anghofio'r eiliad ddadlennol honno. Dros y blynyddoedd, dw i wedi mynd yn ôl at y ddau ddigwyddiad bach annwyl, cysylltiedig, a geiriau Mrs Wynne, gan ddiolch iddi am eu plannu yn fy nghalon. Ac wrth fyfyrio drostyn nhw, bydda i'n meddwl i ba raddau, mewn gwirionedd, mae ein cymdeithas fodern bellach yn cysylltu'r Nadolig a'r Pasg yn reddfol ac ystyrlon, fel y dylid.

Hefyd, ai llawenydd plentyndod wrth gael ein hudo gan ddyfodiad Siôn Corn ac anrhegion di-ri ydy'r rheswm ein bod yn tueddu i glosio at Ŵyl y Geni gymaint mwy na Gŵyl yr Atgyfodiad – Gŵyl yr Aileni? Oni ddylem fel cymdeithas, yn rhesymegol, fod yn mynegi'r un llawenydd agored, os nad mwy, fod yr Iesu wedi marw drosom i'n hachub, ac wedi atgyfodi? Ai dylanwad y byd seciwlar, masnachol, sydd i'w gyfrif am hyn? Neu ai teneuad ein hadnabyddiaeth o'r Gair neu ein diffyg brwdfrydedd yn cyfleu newyddion da yr Atgyfodiad ydy



tarddiad y gwahaniaeth? Cymysgedd o'r dylanwadau hyn, falle?

Tonfedd ddibynadwy ym mhob oes i ddehongli tuedd ein cymdeithas ydy'r diddordeb yng ngweithiau'r beirdd. Mae'r gwahaniaeth pwyslais rhwng Nadolig a Phasg i'w weld yn amlwg o'r casgliadau a gyhoeddwyd yn y cyfnod diweddar. Cyhoeddwyd pedwar casgliad o gerddi'r Nadolig: *Nadolig y Beirdd* (1988), *Angel a Thinsel* (1996), *Llyfr Bach Nadolig* (2020) a *Nadolig* (2022).

Ond ni chafwyd yr un casgliad tebyg o gerddi am gyfnod y Pasg a'r Sulgwyn. Ni fu digon o alw, mae'n ymddangos, am gyhoeddi casgliad thematig ohonyn nhw, er bod digon o ddeunydd cyfrol o'r fath i'w gael. Onid ydy hyn yn ddrych o'r bwlch sydd wedi datblygu rhwng apêl ac arwyddocâd y ddwy ŵyl i ninnau?

Ond arhoswch! Wedi meddwl, oes, mae gennym gasgliadau o gerddi sy'n pontio'r Nadolig a'r Pasg – yn cyd-ddathlu'r Geni a'r Aileni yr un mor llawen yn yr un gerdd – a hefyd yn cysylltu ac yn pontio canrifoedd ein ffydd. Wrth inni ailgydio yn yr hen garolau ar gyfer y Nadolig, cydiwn nid yn unig yng ngobaith geni'r Iesu ond hefyd yng ngobaith ei Atgyfodiad. Mae'r carolau plygain yn llawn o lawenydd agored achubiaeth y Groes a'r Aileni hefyd, fel y garol gan Ficer Rhys Prichard, ac 'Agorwyd Priffordd Rydd' (John Roberts, Pen-ffordd-wen), er enghraifft, sy'n cychwyn efo'r dathliad: 'Agorwyd priffordd rydd i dir llawenydd llon', ac yn gorffen:

> Gogoniant, moliant mawr
> yn awr i'r Tri yn un
> sy'n llywio nef a llawr
> am ddirfawr ras i ddyn;
> a'r ffordd drwy'r llen
> i'r nefoedd wen;
> i'w groes a'i glwy'
> rhoed miloedd mwy
> eu mawl. Amen.

Fis Ionawr eleni, pan oedd wyau Pasg eisoes yn ymddangos ar gownteri'r siopau 'pob peth', yr un pryd â *sales* addurniadau a phetheuach y Nadolig – a minnau'n dal i ganu'r carolau mewn ambell blygain – tybiais am eiliad fod penaethiaid yr archfarchnadoedd hwythau, rywsut, wedi eu goleuo gan wirionedd cyfoethog geiriau Mrs Wynne: "Mae'r Pasg yn cychwyn ar fore'r Nadolig."

*Rhys Dafis*

# GWEDDI AR GYFER Y PASG 2024

Oddi wrth Cynnal, y Gwasanaeth Cwnsela ar gyfer Clerigion, Gweinidogion yr Efengyl, Gweithwyr Cristnogol, a'u Teuluoedd.

Arglwydd yr holl fyd a Duw pob daioni,
plygwn ger dy fron gan ymbil am arweiniad
wrth i ni glosio at y Pasg eleni.
Ti yw ffynhonnell cariad a thrugaredd,
ac yr ydym yn ymwybodol o drasiedi'r ddynoliaeth.

Gweddïwn dros lywodraethau'r byd y Pasg hwn,
wrth i ni gofio bod ystyriaethau gwleidyddol wedi chwarae eu rhan
yng ngweithredoedd y swyddogion Iddewig ac angen Peilat
a'r Ymerodraeth Rufeinig i gadw trefn â dwrn haearn.

Yr ydym yn dystion i'r rhyfeloedd erchyll yn yr Wcráin a Gaza yn benodol,
ond gwyddom bod dinasyddion sawl gwlad
yn crynu mewn ofn oherwydd fod tensiynau rhyfel yn eu plith.
Dduw Shalom, arwain ni eto tuag at heddwch.

Cofiwn am Iesu fel un a welodd gri yr anghenus yn y byd,
yr unig a'r llesg, y cloff a'r digartref, y cleifion a'r truenus.
Heddiw, gweddïwn hefyd dros y sawl sy'n gaeth i sylweddau
ac arferion dinistriol o bob math.
Boed iddynt estyn atat a phrofi grym dy gariad
a'r gobaith o fywyd newydd sydd yn Iesu.

Gweddïwn dros bobloedd y byd,
y rhai nad ydynt yn gwybod am wyrth y Pasg –
    am wawr Iesu'r atgyfodiad
    am drugaredd ei gyffyrddiad
    a'r bywyd newydd ddaw o dderbyn ei fendith.
Ti, Ysbryd sy'n argyhoeddi, clyw ein gweddi dros genhadaeth yr Eglwys.
Arglwydd, trugarha wrthym fel unigolion,
cynorthwya ni i ddyfnhau ein ffydd a bod yn fwy taer yn ein tystiolaeth drosot.
Amen.

cynnal

**AM FWY O FANYLION CYSYLLTWCH Â:** wynfordellisowen@adferiad.org | Rhif ffôn: 07796464045
**www.adferiad.org/services/cynnal**

# Pennod newydd i ganolfan Mary Jones, ger y Bala

Mae 2024 yn garreg filltir i Fyd Mary Jones wrth i'r ganolfan ddathlu deng mlynedd ers ei hagor ym mis Hydref 2014.




Yn ystod y cyfnod hwn mae Byd Mary Jones wedi croesawu ymwelwyr nid yn unig o Gymru ond o bob cwr o'r byd. Mae ein tîm wedi gweithio'n galed i rannu stori ysbrydoledig Mary Jones, a sut yr arweiniodd ei thaith droednoeth, arwrol o 26 milltir i brynu Beibl Cymraeg at sefydlu Cymdeithas y Beibl.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi myfyrio ar y deng mlynedd cyntaf, a hefyd wedi bod yn edrych ymlaen at y dyfodol. Mae wedi dod yn amlwg drwy adborth gan ymwelwyr nad yw'r enw Byd Mary Jones yn adlewyrchiad cywir o'r ganolfan.

Felly rydym wedi penderfynu ailfrandio gyda hunaniaeth newydd, ac ailagor fel Canolfan 'Pererin' Mary Jones.

Pererindod oedd taith Mary i brynu Beibl iddi hi ei hun. Teithiodd i'r Bala am fod trysor ysbrydol yno, a dychwelodd adref gyda rhywbeth newydd a gwerthfawr. Edrychwn ymlaen at eich gwahodd chi yma i ddysgu rhagor am stori Mary a gweld sut all neges y Beibl newid bywydau.

Ein gweledigaeth yw bydd y safle yn cael ei ddefnyddio fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau cenhadol amrywiol. Gobeithiwn y bydd y ganolfan yn lle i bobl gynnal encilion, hyfforddiant, cyfarfodydd gweddi ac ati, ac y bydd hefyd yn dod yn hwb ar gyfer y gymuned leol.


Agorodd y ganolfan am y tymor newydd ddydd Sadwrn, 23 Mawrth 2024, gyda digwyddiad oedd yn cynnwys sesiwn gan Elin Owen o Esgobaeth Bangor, perfformiad o stori Mary Jones a chyflwyniad gan Mary Thomas. Byddwn ar agor 5 diwrnod yr wythnos, o ddydd Mercher i ddydd Sul, 10yb–4yp, tan ddiwedd mis Medi. Os byddai gan eich capel, eich eglwys, eich mudiad neu eich ysgol ddiddordeb mewn ymweld â ni, cysylltwch ar 01678 521877 neu e-bostiwch nerys.siddall@biblesociety.org.uk. Byddem wrth ein bodd yn eich croesawu!



Byddwch yn gallu dod o hyd i'n holl ddigwyddiadau ar ein gwefan newydd www.maryjones.org.uk yn fuan ac ar ein cyfryngau cymdeithasol: Facebook, X ac Instagram. Bydd gennym sawl digwyddiad yn ystod y flwyddyn i ddathlu'r deg, felly cadwch olwg am ddiweddariadau.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn gyffrous iawn fel tîm Canolfan 'Pererin' Mary Jones, ac i chi ymuno â ni ar y daith.

*Nerys Siddall*




**S4C** *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul y Pasg, 31 Mawrth am 8yh**
Ymunwch â Nia Roberts a Rhodri Gomer wrth i ni ddathlu gŵyl fawr y ffydd Gristnogol, y Pasg. Cawn fwynhau gwledd o ganu mawl o Gapel Glynarthen, Ceredigion, a pherfformiadau cerddorol disglair o Eglwys y Santes Fair, Aberteifi.

**BBC radio cymru** *Oedfa'r Groglith am 12.30yp*
Oedfa dan arweiniad y Parch. Anna Jane Evans, Caernarfon

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul y Pasg, 31 Mawrth, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parch. Manon Ceridwen James

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul y Pasg, 31 Mawrth, am 12yp**
Oedfa dan ofal y Parch. Geraint Tudur, Bangor

**Sul y Pasg, 31 Mawrth, am 15.00yp**
Y Ferch a'r Pasg: dehongliadau traddodiadol a chyfoes o'r ferch yn stori'r Pasg

**S4C** *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 7 Ebrill**
Dim rhaglen

**BBC radio cymru** *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 7 Ebrill, am 7:30yb a 16:30yp**
Rhaglen o ganu cynulleidfaol yng nghwmni Aled Davies, Chwilog, a fydd yn dewis emynau yn ein hatgoffa o werth yr Ysgol Sul

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 7 Ebrill, am 12yp**
Oedfa dan ofal y Parch. Carys Ann, Rhydlewis

# Deunyddiau newydd gan Gyhoeddiadau'r Gair

Yn ôl yr arfer, mae gan Gyhoeddiadau'r Gair nifer o gyfrolau newydd ar y gweill ar gyfer 2024, ac edrychwn ymlaen at rannu gwybodaeth am lansiadau yn ystod y flwyddyn. Fel y gwelir o'r llun, sy'n cynnwys 20 o gloriau llyfrau newydd, mae 'na ddetholiad amrywiol o lyfrau difyr ar gyfer pob oed ar y gweill eto eleni.

**Ond beth am 2025 – a thu hwnt?**

Erbyn hyn rydym yn dechrau edrych ymlaen at raglen gyhoeddi 2025. Gall gymryd blwyddyn a mwy i baratoi cyfrol yn barod i'w chyhoeddi, ac felly mae gofyn dechrau'n gynnar bob blwyddyn. Tybed a oes gan rywun o blith darllenwyr *Cenn@d* syniad am lyfr, neu efallai fod gennych ddeunydd sy'n eistedd yng nghrombil y cyfrifiadur a photensial cyfrol ynddo? Neu efallai fod gennych syniadau am adnoddau sydd eu hangen, neu gyfrol yn Saesneg y byddech yn gweld gwerth o'i chael yn y Gymraeg. Oes gennych chi amser i'w roi i baratoi adnodd newydd ar ein cyfer?

Yn ogystal â chyfrolau print, rydym hefyd yn chwilio am adnoddau i'w gosod ar ein gwefannau – er mwyn eu rhannu ag eraill.

Rydym hefyd bob amser yn chwilio am bobl all ein cynorthwyo gyda'r gwaith o gael ein cyfrolau yn barod i'w cyhoeddi – yn olygyddion, cyfieithwyr, dylunwyr, darllenwyr proflenni neu rai fyddai'n barod i werthuso cyfrol neu sgript. Os ydych ar gael i helpu mewn unrhyw ffordd, buaswn yn falch o glywed gennych, wrth i ni, gyda'n gilydd, geisio rhoi adnoddau yn nwylo pobl er mwyn rhannu'r Newyddion Da. Cysylltwch â mi – aled@ysgolsul.com – am fwy o wybodaeth.

*Aled Davies*
*Cyngor Ysgolion Sul / Cyhoeddiadau'r Gair*




LLEUWEN
EMYNAU COLL Y WERIN / LOST WELSH FOLK HYMNS
EBRILL / APRIL 2024
20 - Capel GLYNARTHEN SA44 6NX, 2pm
21 - Capel Hermon CYNWYL ELFED SA33 6SR, 2pm
Capel NANTERNIS, 7pm
22 - Capel y Priordy, CAERFYRDDIN, 7pm
23 - Capel Ebeneser LLANDEILO, 7pm
24 - Capel Elim LLANDDEINIOL SY23 5AN, 7pm
25 - Capel Goffa Ann Griffiths DOLANOG SY21 0LQ, 7pm
26 - Capel Nant y Benglog CAPEL CURIG, 7pm
27 - Capel Shiloh TREGARTH, 7:30pm
28 - Capel CWMTIRMYNACH, Bala LL23 7EB, 6pm
29 - Capel Rhos-y-Gad LLANFAIRPWLL, 7:30pm
30 - Capel y Waen, LLANELWY LL17 0DY, 1pm
Capel Mawr DINBYCH LL16 3SW, 7pm
MAI / MAY 2024
1 - Capel TUDWEIILIOG LL53 8NE, 7pm
2 - Capel Bethesda LLANGENNECH, 7pm
3 - Capel Bethania Y TYMBL, 7pm
Grafeg: Olwenn Manac'h
BRITISH COUNCIL
Wales Cymru
PYST
wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cymdeithas y Cymod yn galw ar fusnesau Cymreig i roi'r gorau i gyflenwi arfau i Luoedd Amddiffyn Israel

Mae Cymdeithas y Cymod am dynnu sylw at ddylanwad busnesau'r fasnach arfau sydd wedi'u leoli yng Nghymru ar y gwrthdaro presennol yn Gaza.

Gyda nifer y marwolaethau yn parhau i godi, mae un o fudiadau heddwch hynaf Cymru yn galw am wahardd busnesau Cymreig rhag creu a gwerthu arfau i Luoedd Amddiffyn Israel (IDF).

Mae nifer o fusnesau yng Nghymru ar hyn o bryd yn cyflenwi'r IDF ag arfau a systemau gwyliadwriaeth a ddefnyddir yn uniongyrchol yn y rhyfel yn Gaza. Mae'r busnesau hyn yn cynnwys:

- **Teledyne Technologies, Powys**

  Byddin Israel yw un o gleientiaid mwyaf Teledyne. Mae yna ffatri Teledyne Labtech ym Mhowys sy'n eiddo i'r cwmni Americanaidd Teledyne. Dyma'r cwmni sy'n allforio'r nifer mwyaf o arfau o Brydain i Israel. Mae'r ffatri'n creu arfau a systemau gwyliadwriaeth a systemau targedu.

- **Elbit Systems**

  Mae dronau wedi cael eu profi yn Aber-porth ac yn RAF Fali ar ddrôn model Hermes 900. Mae Elbit Systems yn darparu 85% o'r holl ddronau a ddefnyddir gan yr IDF.

- **JCB**

  Mae'r ffatri yn Wrecsam yn cynhyrchu offer amddiffyn ac yn cyflenwi cerbydau 'milwrol arbenigol' i'r IDF.

Mae data'r Ymgyrch yn Erbyn y Fasnach Arfau (CAAT) yn dangos bod y Deyrnas Unedig wedi cymeradwyo £560m mewn trwyddedau allforio i Israel ers 2008. Ond mae gwir werth allforion o'r Deyrnas Unedig i Israel yn gyfrinach, gyda llywodraeth Prydain hefyd yn cymeradwyo 88 o drwyddedau o "werth diderfyn" neu drwyddedau agored lle nad yw eu gwerth yn hysbys.

Ychwanega Rhun Dafydd, cadeirydd Cymdeithas y Cymod, "Mae'r golygfeydd erchyll yn Gaza yn parhau i'n hysgwyd, ond yn anffodus mae gan Gymru ran yn y gwrthdaro gwaedlyd hwn. Mae angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddwyn busnesau sy'n ymwneud â'r rhyfel hwn i gyfrif a sicrhau bod llwybr ymarferol ar gyfer heddwch hirdymor yn y Dwyrain Canol."

"Er nad yw masnach yn fater datganoledig," meddai, "mae gan Lywodraeth Cymru'r gallu i roi pwysau ar y busnesau hyn. Anogwn y llywodraeth yng Nghaerdydd i ategu eu safiad dros gadoediad yn Gaza a gweithio gyda llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau eu bod yn torri pob cyswllt â'r IDF."

Mae Cymdeithas y Cymod yn credu y gall y gymuned ryngwladol wneud mwy, gan gynnwys yma yng Nghymru, i sicrhau bod proses heddwch dymor hir ar waith yn y Dwyrain Canol. Ni ddylai busnesau yng Nghymru allu gwneud elw o'r rhyfel presennol hwn yn Gaza nac yn unrhyw wrthdaro ledled y byd.

Bydd y Gymdeithas yn cysylltu â'n cynrychiolwyr etholedig i bwyso arnynt i dynnu sylw at unrhyw arfau sy'n cael eu creu yng Nghymru at ddefnydd yr IDF.

*Rhun Dafydd*

rhundafydd@gmail.com
07449326476

# Cynrychiolydd y Cenhedloedd Unedig yn rhoi Darlith Flynyddol Morlan-Pantyfedwen 2024



Bydd Darlith Flynyddol Morlan-Pantyfedwen 2024 yn cael ei chynnal yn y Morlan nos Fawrth, 9 Ebrill, am 5.30 o'r gloch. Y darlithydd eleni fydd yr Athro Virginia Gamba, Cynrychiolydd Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Blant a Gwrthdaro Arfog – ac mae'n fraint fawr i ni gael ei chroesawu atom i'r Morlan.

Ganed Virginia Gamba yn Buenos Aires. Aeth i Brifysgol Newcastle upon Tyne i astudio am radd mewn Astudiaethau America Ladin a Sbaeneg, cyn dod i Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth i wneud cwrs Meistr mewn Astudiaethau Strategol. Ers hynny, cafodd ei gwneud yn Gymrawd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae wedi cael gyrfa hir ac amrywiol ym maes heddwch a diogelwch a materion diarfogi, a hynny yn Llundain, Affrica, Chicago a'r Ariannin.

Teitl y ddarlith hon fydd **Building Connections for the Common Good: Dialogue and Trust in the Pursuit of Peace**, ac ynddi fe fydd Ms Gamba yn trafod ychydig o'r heriau sydd yn rhan o drafodaethau ar bob lefel, o'r byd-eang i'r dydd-i-ddydd. Dywed fod yn "rhaid bod yn barod i wrando heb ragfarn a pheidio addo heb y sicrwydd o allu cyflawni. Rhaid sicrhau'r gofod a'r lle i allu adeiladu heddwch".

Darlith Saesneg fydd hon eleni, yn cael ei chadeirio gan yr Athro Mererid Hopwood.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen ar 01970 612806 neu post@jamespantyfedwen.cymru.

## DARLITH FLYNYDDOL MORLAN-PANTYFEDWEN 2024

**Building Connections for the Common Good: Dialogue and Trust in the Pursuit of Peace**

Darlith gan **Yr Athro Virginia Gamba,** Cynrychiolydd Arbennig Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig dros Blant a Gwrthdaro Arfog

Cadeirydd: **Yr Athro Mererid Hopwood**

Nos Fawrth, 9fed o Ebrill, 2024
5.30 o'r gloch

yng Nghanolfan Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth

CROESO I BAWB!

Manylion pellach: Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen
01970 612806 / post@jamespantyfedwen.cymru

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen Foundation

Morlan – Canolfan ffydd a diwylliant – Centre for faith and culture

# Barn Annibynnol

## Saif ein gobaith yn yr Iesu!

Tybed faint ohonom sy'n cael pwl o anobaith y dyddiau hyn wrth wylio'r newyddion neu wrando arnyn nhw o ddydd i ddydd? Mae'r penawdau negyddol cyson yn gallu bod yn llethol ac yn ddigon i'n llorio ar adegau. Y gwir yw ei bod yn anodd osgoi'r fath newyddion heddiw. Maen nhw'n gorwedd yn ein pocedi, yn ein bagiau ac ar ein desgiau, drwy declynnau clyfar a gliniaduron ac ati. Gall portread syfrdanol y cyfryngau o newyddion negyddol ar sgriniau, er enghraifft, gael dylanwad mawr ar ein canfyddiad o'r byd. Bob dydd, mae penawdau a storïau erchyll yn llifo o'n sgriniau, yn llawn rhyfel, terfysgaeth, trosedd, llygredd, anghyfartaledd a digwyddiadau torcalonnus eraill.

Dyw'r adloniant ar ein sgriniau ddim yn gwbl rydd o'r gofid hwn ychwaith. Sawl gwaith, wrth geisio ymlacio, drwy wylio drama neu ffilm neu opera sebon y cyfyd mater yn dilyn rhyw rediad stori neilltuol sy'n gallu peri gofid ac y cawn ein hannog, os oes angen, i gysylltu â phobl ar lein am help?

### Blwyddyn adfer gobaith

Galwodd Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, António Guterres, am undod byd-eang er mwyn gwneud 2024 yn flwyddyn ar gyfer adeiladu ymddiriedaeth a gobaith yn dilyn dioddef, trais a llanast hinsawdd enfawr – pethau a oedd mor nodweddiadol o 2023. Mae dynoliaeth ar ei chryfaf pan ydym yn sefyll gyda'n gilydd, oedd ei neges. Dywedodd fod yn rhaid i 2024 fod yn flwyddyn ar gyfer adfer ymddiriedaeth a gobaith. Dyw pwyntio bys na gwn ddim yn arwain at unrhyw beth. Mae'n debyg mai 2023 oedd y flwyddyn boethaf erioed ar record, mwyfwy o bobl yn dioddef tlodi a diffyg bwyd a rhyfeloedd yn tyfu mewn niferoedd a ffyrnigrwydd. Mae'r gwrthdaro'n parhau gan arwain at dranc miloedd o fywydau, llawer ohonynt yn wragedd a phlant. Mae miliynau wedi gorfod gadael eu cartrefi ac yn wynebu haint. Ar yr un pryd mae'r blaned mewn perygl gyda thymheredd yn torri pob record ac effeithiau newid hinsawdd yn gynyddol waethygu.

Mae diffyg gobaith yn amlwg heddiw. Mae pobl yn teimlo dan bwysau mawr oherwydd chwyddiant, gostyngiad mewn safonau byw, streiciau, argyfwng mewn gwasanaethau cyhoeddus a rhyw deimlad cyffredinol o ddirywiad.



### Anobaith

O holl broblemau gwledydd y Deyrnas Unedig, colli gobaith yw'r un mwyaf iasol ohonyn nhw i gyd. Mae gwir angen i'n pleidiau gwleidyddol gynnig rhyw gyfeiriad a gobaith i'n cenhedloedd sydd mor llonydd a disymud ar hyn o bryd. Tybed a ydynt mewn gwirionedd yn llwyddo i'n hargyhoeddi? Os ydym yn berffaith onest, mae heriau bywyd yn gallu pwyso'n drwm arnom. A phan ddaw'r heriau hyn i'n rhan maen nhw'n amharu ar ein gobaith. Maen nhw'n troi gobaith yn anobaith. Yn aml, mae sinigiaeth ac enbydrwydd fel pe baent yn treiddio'n byd a'n bywydau. Yn anaml iawn mae ieuenctid yn mynegi gwir obaith am y dyfodol, yn ôl un seicolegydd sy'n cyd-adweithio'n gyson â nhw. Ond tybed a oes rhaid i bethau fod fel hyn mewn gwirionedd?

### Gobaith sicr

Teimlad o ddisgwyl, dymuniad i rywbeth penodol ddigwydd yw'r diffiniad cyffredinol o obaith yn ein geiriaduron. Ond mae'r diffiniad Beiblaidd ohono'n mynd gam ymhellach. Gobaith yw'r disgwyliad pendant y bydd Duw yn cyflawni'r hyn a addawodd. Tra bo'r naill yn ddymuniad, mae'r llall yn sicrwydd neu'n warant.

Mae'r gyfres ddogfennol *Ambulance* ar y teledu yn dangos i ni'r heriau sy'n wynebu pobl broffesiynol ymroddedig wrth geisio achub bywydau a chynnig gofal brys y dyddiau hyn. Mae'r bobl broffesiynol hyn yn gweld cymaint. Tua diwedd un o'r rhaglenni yn y gyfres ac ar ôl sifft galed o waith a gweld pob math o argyfyngau dywedodd un parafeddyg fod angen chwistrelliad o obaith ar bobl heddiw a bod gan yr Eglwys doreth ohono i'w gynnig.



### Atgyfododd

Y gobaith go iawn yw hwnnw. Gobaith y Beibl ac nid y geiriaduron! Y gobaith a all ein tywys o anobaith, ofn ac arswyd i oleuni a bywyd newydd. Atgyfodiad Iesu a chariad Duw yw sail y gobaith hwnnw. Diolch am neges y Pasg, am y bedd gwag a'r Iesu byw ac am i hyn oll gynnig gwir obaith i bob un ohonom. Gwybod bod Duw gyda ni, ei fod wedi bod gyda ni erioed a'i fod yn addo aros gyda ni am byth sy'n rhoi gwir obaith i ni. Ac onid ein braint ni, Gristnogion, yn y dyddiau cythryblus hyn yw bod yn gyfryngau'r gobaith hwnnw ymysg ein cyd-ddynion a gwneud beth a allwn i'w helpu?

**R. Alun Charles**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)


## Gweinidogaeth

Rydym yn chwilio am weinidog rhan-amser i weinidogaethu ar gapeli Providence, Llangadog a Bethlehem, Dyffryn Ceidrych.

Derbynnir ceisiadau drwy law Mrs Jennifer Hughes, Efail Newydd, Llangadog, Sir Gâr SA19 9BU
neu drwy e-bost:
jen60@hotmail.co.uk

## Saron Creunant

Eleni y mae eglwys Saron yn dathlu 120 o flynyddoedd ers ei sefydlu.

1904–2024

Fe'ch gwahoddwn yn gynnes i ymuno gyda ni am Sul o Fawl/Cymanfa ar yr 31 Mawrth am 4 o'r gloch Sul y Pasg.

Croeso cynnes i bawb

# MYFYRDOD O'R BEIBL

## Y Beibl a'i bobl: Paul

*Y cymeriad olaf i'w ystyried yn ein cyfres o fyfyrdodau ar brif gymeriadau'r Beibl yw'r Apostol Paul.*

### Y Pharisead selog

Enw genedigol Paul oedd Saul. Cafodd ei eni yn Tarsus, Cicilia (Twrci heddiw), tua 5 OC i deulu o Iddewon selog. Roedd Paul yn llinach llwyth Benjamin ac roedd ei rieni yn Phariseaid o argyhoeddiad. Grŵp dylanwadol o Iddewon oedd y Phariseaid a oedd yn cadw'n llym at gyfreithiau'r Hen Destament. Er eu bod yn perthyn i'r mudiad hwn, roedd teulu Saul hefyd yn ddinasyddion Rhufeinig oedd yn siarad Groeg a Lladin.

Yn ei arddegau, cafodd Saul ei addysgu gan Gamaliel sef un o rabïaid enwocaf y ganrif gyntaf (Actau 22:3). Trwy Gamaliel, daeth Saul yn dra chyfarwydd â'r Hen Destament, hanes yr Iddewon a gramadeg yr iaith Hebraeg. Daeth yn un o ddeallusion Iddewig ei oes ac roedd pawb yn disgwyl iddo ddod yn aelod o'r Sanhedrin – y Goruchaf Lys Iddewig – ymhen amser.

Fel Pharisead uniongred, roedd yn gas gan Saul Gristnogion. Roedd yn gweld Cristnogaeth fel gau athrawiaeth beryglus oedd yn tanseilio dysgeidiaeth Iddewig. Felly aeth ati i erlid Cristnogion gyda'r bwriad o gael gwared ar Gristnogaeth am byth. Pan gafodd Cristion cynnar o'r enw Steffan ei labyddio, roedd Saul yn bresennol yn dal dillad y rhai oedd yn taflu'r cerrig rhag iddynt gael eu baeddu gan waed.

### Tröedigaeth ddramatig

Un diwrnod, newidiodd bywyd Saul yn gyfan gwbl. Roedd ar y ffordd o Jerwsalem i Ddamascus er mwyn erlid Cristnogion yno. Ond, wrth iddo deithio i lawr y ffordd, cyfarfu â'r Arglwydd Iesu Grist. Gwelodd oleuni llachar a chlywodd lais yn dweud wrtho: 'Saul, Saul, pam yr wyt yn fy erlid i?' (Actau 9:4) Ar ôl iddo ofyn, 'Pwy wyt ti Arglwydd?' atebodd y llais: 'Iesu wyf fi, yr hwn yr wyt ti yn ei erlid.' (Actau 9:5)

Y diwrnod hwn oedd y trobwynt pwysicaf ym mywyd Saul. Ar y ffordd i Ddamascus, cafodd dröedigaeth. Cyn y diwrnod hwn, roedd yn Pharisead llym ac yn ddyn colledig a dall. Cyn y diwrnod hwn, roedd yn casáu Iesu; yn casáu'r Efengyl; yn casáu'r eglwys. Ond daeth i garu Iesu Grist fel Arglwydd a Gwaredwr;



daeth yr Efengyl yn sylfaen i'w fywyd; daeth yn rhan o'r eglwys Gristnogol. Er ei bechodau mawr, roedd Iesu wedi gwneud ffordd i dalu'r pris amdanynt trwy'r groes a'r atgyfodiad. Daeth Saul y Pharisead yn Paul yr Apostol.

Yn Galatiaid 1:11-24, rhydd Paul ddisgrifiad o'i dröedigaeth:

> Oherwydd fe glywsoch am fy ymarweddiad gynt yn y grefydd Iddewig, imi fod yn erlid eglwys Dduw i'r eithaf ac yn ceisio'i difrodi hi, ac imi gael y blaen, fel crefyddwr Iddewig, ar gyfoedion lawer yn fy nghenedl, gan gymaint mwy fy sêl dros draddodiadau fy hynafiaid. Ond dyma Dduw, a'm neilltuodd o groth fy mam ac a'm galwodd trwy ei ras, yn dewis datguddio ei Fab ynof fi, er mwyn i mi ei bregethu ymhlith y Cenhedloedd.

### Gwas Crist

Ar ôl hyn roedd Paul yn benderfynol o rannu'r Newyddion Da trwy'r cyfandir. Dechreuodd bregethu am Iesu mewn synagogau gan geisio darbwyllo ei gyd-Iddewon mai Crist oedd y Meseia sy'n cael ei addo yn yr ysgrythurau. Aeth Paul ar dair taith genhadol o gwmpas y cyfandir gan blannu eglwysi ledled Ewrop. Yn ystod y teithiau hyn, ysgrifennodd nifer o lythyrau yn annog a dysgu Cristnogion beth i gredu a sut i fyw'n ffyddlon i Iesu. Yn wir, ysgrifennodd Paul 13 o lyfrau'r Beibl sef chwarter y Testament Newydd!

### Paul a'r Cristion

Mae hanes Paul yn ein hatgoffa fod yn rhaid i bob Cristion gael tröedigaeth. Mae'n annhebygol y byddwn ni'n cael tröedigaeth cweit mor ddramatig â Paul, ond eto mae'r Beibl yn ein dysgu fod tröedigaeth yn hanfodol. Wedi'r cyfan, nid oes neb ohonom yn cael ein geni i mewn i'r bywyd nac i berthynas iawn gyda Duw (Effesiaid 2:1). Yn naturiol, gwrthryfelwyr a phechaduriaid ydym sydd ar goll ac sy'n bell o Dduw.

Yn ôl Iesu, mae'n rhaid i ni gael ein 'geni' eto i fod yn blant iddo, ein 'geni o'r newydd'. Yn wir, dywedodd Iesu wrth Nicodemus y Pharisead: 'Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthyt, oni chaiff rhywun ei eni o'r newydd ni all weld teyrnas Dduw.' (Ioan 3:3) Tröedigaeth yw pan mae Duw yn ein geni ni o'r newydd trwy'r Ysbryd Glân: gynt doedden ni ddim yn gweld ein hangen am Iesu Grist, nawr rydym yn ei garu fe yn fwy na dim arall.

Mae tröedigaeth pob Cristion yn edrych yn wahanol. Nid yw rhai'n gallu cofio eu tröedigaeth gan eu bod wedi'u magu mewn teulu Cristnogol a'u bod mor ifanc yn dod at Iesu fel Arglwydd. I eraill, cyfnod yw tröedigaeth ac ni allwn gofio'r union ddiwrnod pan newidiodd Duw ein calonnau. I eraill, mae tröedigaeth yn ddigwyddiad dramatig – yn ddiwrnod penodol maent yn ei gofio am byth. Ond er bod tröedigaethau yn amrywio yr un peth sy'n digwydd – rydym yn cael ein 'geni o'r newydd' gan Dduw.

***Gwilym Tudur***

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

**Cyfarfodydd Blynyddol 2024**
**Coleg y Cymoedd, Nantgarw**
**11–13 Gorffennaf**

Rhaid i rybudd o bob penderfyniad sydd i'w gyflwyno yn y gynhadledd eleni gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 30 Mai, fan bellaf, wedi ei lofnodi gan ei gynigydd a'i eilydd.

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# ✦ENCIL I WEINIDOGION✦

## Ebrill 18-19 yn Nant Gwrtheyrn

**Thema'r Encil:**
"Dyma'r Arglwydd yn dweud wrth Abram, 'Dwi am i ti...'" (Genesis 12:1).
Beth yw Gair yr Arglwydd i Gymru heddiw? Beth mae'r Arglwydd yn ein galw ni i'w gyflawni?

**Dydd Iau, Ebrill 18**

**3:00** **Te / Coffi a Chofrestru**

**3:30** **Oedfa Agoriadol**
Parchg Jill-Hailey Harries

**4:00** **Astudiaeth Feiblaidd: Genesis 12:1-9**
Yr Athro Emeritws Eryl Wyn Davies

**5:00** **Amser rhydd a threfnu llety**

**6:00** **Swper**

**7:30** **Darlith Goffa Dr. Pennar Davies a Dr. Tudur Jones**
Parchg Ddr Alun Tudur

**Am fwy o wybodaeth, neu i gofrestru, cysylltwch â'r Parchg Carwyn Siddall,**
***Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau***

**Dydd Gwener, Ebrill 19**

**7:00** **Epilog a Gweddi ar y traeth *(Dewisiol)***
Parchg Dylan Rhys Parry

**8:00** **Brecwast**

**9:30** **Gwibdaith i Eglwys Beuno Sant, Clynnog Fawr**
**Defosiwn a Chyflwyniad: Tystiolaeth y Saint – Ymateb i'r alwad**
Parchg Canon Ddr Rosie Dymond a'r Parchg Selwyn Griffith

**10:45** **Te / Coffi yn y Nant**

**11:15** **Duw'n arwain yr eglwysi yn yr 20G. Y llwyddiannau a'r methiannau**
Parchg Ddr Siôn Aled


**12:00** **Seminar. Ein Dealltwriaeth o Genhadu ac Efengylu**
Parchg Ddr Alun Tudur

**12:45** **Cinio**

**1:30** **Panel Holi dan arweiniad Alun Lenny**

**3:00** **Oedfa i Gloi**
Parchg Glenys Jones






Estynnir croeso cynnes i chi ymuno â ni ar gyfer

## Cwrdd Sefydlu'r

## Parchg Beti-Wyn James BD, MTh

Gofalaeth Y Priordy, Caerfyrddin, Cana a Bancyfelin

yn Weinidog i Iesu Grist

yn

Eglwysi Elim, Ffynnon-ddrain a Heol Awst

**Nos Wener, 12 Ebrill 2024**
**am 6.00 o'r gloch**
**yng Nghapel Heol Awst**

Ar ran Heol Awst:
Nigel George,
2 Parc Cilddewi,
Tre-Ioan,
Caerfyrddin,
SA31 3HP

Ar ran Elim:
Roland Jeremy
37 Dôl Y Dderwen,
Llangain
Caerfyrddin
SA33 5BE

**SEFYDLIR GOFALAETH NEWYDD**
**TRWY'R UNIAD HWN**
**'GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN'**

**CROESO CYNNES I BAWB**
Darperir lluniaeth wedi'r oedfa

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*